# CYNGOR CYMUNED BODORGAN

**Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Bodorgan ar Nos Fawrth, 16 IONAWR 2018.**

**1 Presennol:**

**Cyng Gwilym Looms (Cadeirydd), Cyng Dafydd Jones,**
**Cyng Gareth Evans, Cyng Myfyr Davies,**
**Cyng Andrew Hughes, Cyng Jeffrey Hughes,**
**Cyng Selwyn Williams, Cyng Alwyn Rowlands.**
**Cynghorydd Sirol Mr Bryan Owen a**
**Mr J Alun Foulkes (Clerc Dros Dro).**

**2 Ymddiheuriadau:**

**Cyng Gwen Burns a Cynghorydd Sirol Mr Peter Rogers.**

3 **Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.**

4 **Datgan Diddordeb.**

**4.1 Ni ddangoswyd unrhyw diddordeb.**

5 **Derbyn Cofnodion Cyfarfod y Cyngor – 21 Tachwedd 2017.**

5.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod y cofnodion yn rhai cywir (DGJ/AH) ar ôl cywiro:

5.2 Y dylai fod wedi cyfuno cofnod 7 & 11 o dan 'Materion Mynwentydd'.

5.3 Cofnod (9.2) lle dylir fod wedi dweud 'heb ei wneud' yn hytrach na 'wedi ei wneud' pan cyfeiriwyd at ysgafnhau y sefyllfa ger cyffordd B4422 i'r A4080.

**6 Materion yn Codi o'r Cofnodion.**

6.1 **Carafan, Malltraeth** – nodwyd fod y garafan yn ei ôl a penderfynnu gadael y sefyllfa yn nhwylo Cynghorydd Sirol Bryan Owen.

6.2 **Parcio, Hermon** – parhau i ddisgwyl am adroddiad Cyng Sirol, Mr Peter Rogers.

**Arwyddo.......................................**

6.3 **Cyffordd Cefn Dderwen/Carreg Ceiliog Bach** – adroddiad fod y sefyllfa yn parhau i fod yn annerbynniol – dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen fod y sefyllfa mewn llaw.

6.4 **Cyfarfod gyda Awdit Cymru** - nodwyd nad oedd y Cyngor heb dderbyn adroddiad bellach oddiwrth Mr Ian Hughes ar gyfer cyfrifon blynyddol 2013/14 & 2014/15 yn dilyn cyfarfod cafwyd cyn y Nadolig.

6.5 **Hen Dogfennau y Cyngor** – dywedodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd fod sylw mewn llaw o wneud trefniadau adennill holl ddogfennau'r Cyngor sydd mewn cynhwysydd yng Nghefn Cwmwd erbyn y cyfarfod nesaf.

6.6 **Mandad y Banc** - gofynnir gwneud trefniadau o gywiro mandad y Banc a gofyn am fantolen – Cyng Andrew Hughes i wneud trefniadau gyda'r Banc ac ychwanegu Mr Selwyn Williams a Mr Alwyn Rowlands fel llofnodwyr y Cyngor.

6.8 Cadarnhawyd fod Mr Alun Foulkes wedi anfon llythyr i'r HMRC ynghylch y Cyngor a oedd wedi cofrestru ar gyfer TWE tan Gorffennaf 2017 yn gofyn am arweiniad.

6.9 Cadarnhawyd fod ymholiadau wedi ei wneud ynghylch a Gwefan y Cyngor ac y bydd angen diweddaru cyn gynted a phosib.

6.10 Cadarnhawyd fod trefniadau wedi ei wneud gyda'r Cyngor Sir er mwyn derbyn ad-daliad costau Llwybrau y Cyngor Cymdeithas am 2017.

6.11 Archwilio Caeau Chwarae – diolchwyd i Cyng Alwyn Rowlands am ei waith o ymgymeryd y cyfrifoldeb o cadw golwg ac archwilio'r caeau chwarae yn fisol fel rhan o bolisi risg y Cyngor.

6.12 Gwrchyn ger 5 Teras Iorwerth - nodwyd fod angen mwy o sylw i'r gordyfiant – Cynghorydd Sirol, Bryan Owen i gysylltu gyda aelod Adran Briffyrdd y Cyngor Sir.

6.13 **Hysbysfyrddau Newydd** - penderfynwyd symud ymlaen gyda prynu hysbysfwrdd newydd a lleoli ger Mynwent Trefdraeth ac wrth cilfan bws, Bethel a clustnodi cyllid odditeu £500.00.

6.14 **Llythyr Ymddiswyddiad Mr Gwilym Davies** – darllenodd y Cadeirydd y llythyr a dderbyniwyd ac fe benderfynwyd ei dderbyn gyda diolch iddo am ei holl wasanaeth i'r Cyngor. Gofynwyd I'r Swyddog Gweinyddu cysylltu gyda Adran Etholiad y Cyngor Sir er mwyn cychwyn y broses o hysbysebu y sedd gwag ar gyfer Ward Llangadwaldr a llenwi erbyn y cyfarfod nesaf.

**Arwyddo..............................**

## 7 Materion Cyllid - Taliadau & Derbyniadau:

### 7.1 Taliadau.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7.1.1 | Canolfan Cymunedol Bodorgan | – Llogi Ystafell | - | £112.00 |
| 7.1.2 | Gwynedd Office Supplies - | Llyfr Cyfrifon Newydd | - | £34.50 |
| 7.1.3 | Shaw & Sons - | Llyfr Cofrestru Claddu | - | £192.00 |
| 7.1.4 | Eden - | Llyfr Cofrestru Claddu | - | £37.99 |

### 7.2 Derbyniadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.2.1 | Cyngor Sir Ynys Mon – Ad-Daliad Costau Llwybrau 2017 | - | £650.00 |
| 7.2.2 | Cyngor Sir Ynys Mon – Trydydd Priseb 2017/2018 | - | £2,783.33 |

### 7.3 Trefnu Priseb ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2018-2019.

7.3.1 Roedd Cyng Dafydd Jones wedi darparu cyllideb ar gyfer y Cyngor am 2018-2019 yn dangos holl rhestr gwariant a derbyniadau. Roedd cyfanswm gwariant yn £375.00 yn fwy na'r derbyniadau ac oherwydd ansicrwydd costau archwilydd allanol yn ogystal ac ad-daliad TWE, cafwyd argymelliad y dylai codi'r priseb i £8,600 am y flwyddyn. **CYTUNWYD i'r argymelliad yn unfrydol gyda diolch i Cyng Dafydd Jones am ei waith yn darparu'r ddogfen.**

7.3.2 Dywedodd y Swyddog Gweinyddu gan fod y Cyngor o gwmpas £15,000 yn y cyfrif cyffredol ac y dylai agor Cyfrif Cadw a trosglwyddo £10,000 i'r cyfrif yma ar gyfer y taliadau a soniwyd uchod. **CYTUNWYD.**

## 8 Materion Mynwentydd.

8.1 **Torri'r Fynwent –** Cais Cwmni Mon Grass Cutting am dorri'r Fynwent – cyfanswm £2,620. Cytunwyd derbyn y pris. Y Swyddog Gweinyddu i cadarnhau'r polisi yswiriant gyda'r Cwmni a gofyn am gopi ganddynt.

## 9 Materion Torri Gwair & Llwybrau.

9.1 Eto, UN cais cafwyd gan Mon Grass Cutting Services – cyfanswm £865.00 am dorri'r Llwybrau Cyhoeddus, £105.00 am dorri'r glaswellt o gwmpas beinciau y Cob a £50.00 am dorri ger Cwt Glas. Derbyniwyd y cais yn unfrydol ac eto diolchwyd i Cyng Alwyn Rowlands am ei waith dros nifer o flynyddoedd ac am ymgymeryd y cyfrifoldeb o ddangos y Cwmni yr holl safleoedd oedd angen sylw.

**Arwyddo.......................................**

## 10 Materion Priffyrdd.

10.1 **Lon Gefn Groeslon Hermon i Aberffraw** – angen gwaith tacluso a atgyweirio'r tyllau.

10.2 **Llwybr Arfordirol Ynys Môn** – angen sylw i'r Gamfa.

## 11 Ceisiadau Cynllunio Newydd.

Nid oedd unrhyw gais wedi ei dderbyn.

## 12 GOHEBIAETH

Nid oedd unrhyw gohebiaeth wedi ei dderbyn.

## 13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 20 MAWRTH 2018.

13.1 Diolchodd y Cadeirydd i pob aelod am fynychu. Clowyd y cyfarfod am 8:15yh.

**Arwyddo.......[signature].........................Cadeirydd.....20/03/2018.....Dyddiad.**

# Cyngor Cymuned **BODORGAN** Community Council

## BUDGET FORECAST 2018/19

| INCOME | | FORECAST EXPENDITURE | |
|---|---|---|---|
| Current precept | 8350 | Grass cutting (£100 cont.) | 3350 * |
| Cemetery | 650 est. | Donation Llangadwaladr | 150 |
| Plot Rents | 3307.16 | Bodorgan Estate | 3225.50 |
| Footpaths recharge | 650 | Clerk | 1560 * |
| | | Com Centre Support | 2000 |
| | | Donations | 750 |
| | | Audit fees | 200 * |
| | | Water Rates | 60 |
| | | Insurance | 450 |
| | | ROSPA | 85 |
| | | Admin Costs | 200 |
| | | Centre Hire | 101.50 |
| | | Website fees | 200 |
| | | Contingency (maintenance) | 1000 |
| | 12957.16 | | 13332.00 |

The above shows a deficiency of £374.84. The figures are based on un-certain estimates such as only one funeral and one new headstone. The Community Council have undertaken to contribute up to £2K to support the Community Centre, but no monies have been requested by that Charity for the years 15/16 and 16/17. The Chair of the Charity currently believes that the same will apply for the year 17/18 but there is considerable un-certainty going forward.
The items marked * are all unknown, the first dependant on the Acting Clerk's fees, the results of the retendering of the grass cutting work, but I believe that the biggest concern is the level of the Audit charges that we face for the last four years. They could potentially be very significant.
I believe that Members might consider it prudent to increase the precept by 3% which is an additional £250, having regard to the number of uncertainties.

Dafydd Jones 4th January 2018

ATODIAD 'A'/APPENDIX 'A'

## PRAESEPTAU CYNGOR CYMUNED/ TREF

**CYMUNED/TREF:**

## COMMUNITY/TOWN COUNCIL PRECEPTS

**COMMUNITY/TOWN OF:**

BODORGAN

**BLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2019**

I Gyngor Sir Ynys Môn yr Awdurdod Trethu lle mae'r gymuned/dref a enwir uchod ynddo.

Trwy hyn, gofynnir i chwi dalu i

**YEAR ENDING 31 MARCH 2019**

To the Isle of Anglesey County Council being the Billing Authority in which the above named Community/Town is situated.

You are hereby directed to pay to

MR GWILYM LOOMS

o

of

ARGRAIG, BETHEL, BODORGAN, YNYS MÔN

Clerc y cyfryw Gyngor y swm o

being the Clerk of the said Council the sum of

£ 8,600

a godir ar y Gymuned i gwrdd a chostau sy'n daladwy i'r Cyngor Cymuned/Tref am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019.

to be raised by a charge levied on the Community to meet expenses payable by the Community/Town Council for the year ending 31 March 2019.

Rhoddwyd yr awdurdod i wneud hyn mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned/Tref a gynhaliwyd ar y

This was authorised at a meeting of the Community/ Town Council held on the

16 dydd o/day of IONAWR 2018

Cadarnheir mai swm anghenion cyllidebol yr Awdurdod PRAESEPTU am y flwyddyn, dan Adran 50, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yw

It is also confirmed that the amount calculated as the precepting authority's budget requirement for the year, under Section 50 of the Local Government Finance Act 1992 is

£ 8,600.00

**ARWYDDWYD/SIGNED:**
**CLARC/CLERK**

[signature]

**CADEIRYDD/MAER Y CYNGOR CYMUNED/TREF:**
**CHAIRMAN/MAYOR OF THE COMMUNITY/TOWN COUNCIL:**

Gwilym W. Looms

COMTOWNPREC(LWJ)